**BYDD digwyddiad cefn gwlad yn y Rhyl yn lansio dau brosiect newydd sy'n canolbwyntio ar blant a lles.**

Bydd Rhyl Wyllt – digwyddiad ar y cyd gan Gyngor Tref y Rhyl a Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn dychwelyd am drydedd flwyddyn.

Casgliad crefftau a gweithgareddau awyr agored eleni, i'w gynnal yng Nglan Morfa, oddi ar Marsh Road, fydd y mwyaf eto. Bydd hefyd yn rhagflaenu cychwyn dau gynllun newydd.

Dechreuodd Rhaglen Plant! Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2008, mewn partneriaeth gyda Coed Cadw, gyda choeden yn cael ei phlannu ar gyfer pob plentyn sy'n cael ei eni neu ei fabwysiadu yng Nghymru. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r prosiect wedi ei gyflenwi gan Cyfoeth Natur Cymru ar ran y bartneriaeth. Yn 2014, ehangwyd yr ymrwymiad i blannu coeden ychwanegol yn Uganda ar gyfer pob plentyn. Mae Cymru a Mbale yn gweithio gyda'i gilydd trwy Raglen Cymru o Blaid Affrica Llywodraeth Cymru ac mae prosiect Uganda yn cael ei redeg gan elusen Maint Cymru. Bydd Glan Morfa yn gartref i safle Plant! newydd a fydd yn cael ei ddatgelu ar ddiwrnod Rhyl Wyllt.

Bydd menter *Natur er Iechyd* Tai Cyngor Sir Ddinbych, sy'n anelu at annog pobl leol i ddarganfod cefn gwlad mewn ymdrech i roi hwb i'w lles, yn cael ei datgelu ar yr un pryd â Plant!

Meddai Maer y Rhyl Mayor y Cynghorydd Win Mullen-James: "Fel digwyddiad, mae'r Rhyl Wyllt wedi dod yn rym natur ynddo'i hun. Bob blwyddyn, mae cannoedd o bobl ifanc a'u teuluoedd yn dod draw i roi cynnig ar grefftau, mynd ar y trac beiciau, gwneud basgedi a bathodynnau, a throi eu llaw at gerddoriaeth, chwilio am fywyd gwyllt ac, yn gyffredinol, darganfod ochr arall i'r Rhyl.

"Mae'r ffaith bod dau brosiect pwysig newydd yn lansio yma yn dyst i bwysigrwydd cefn gwlad y Rhyl a'r effaith y mae mannau o'r fath yn ei chael ar iechyd a lles pobl. Mae gan ddigwyddiad eleni weithgareddau ychwanegol megis cadw gwenyn, gemau blodau gwyllt, cerbyd pedair olwyn arbennig sy'n galluogi i'r sawl gyda phroblemau symudedd grwydro cefn gwlad, cerddwr styd-fachau arbennig iawn, a llawer mwy."

Dywedodd y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd, bod crwydro cefn gwlad yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd pobl.

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications

Ychwanegodd: “Mae Rhyl Wyllt eleni yn dwyn at ei gilydd fwy o weithgareddau nag erioed o’r blaen ac yn rhoi cyfle i bobl ddarganfod sgiliau newydd a chrwydro cefn gwlad sydd ar stepen eu drws.

“Ond mae hefyd yn gyfle i lansio dwy fenter arbennig. Mae Glan Morfa wedi ei adnabod fel safe cyntaf Sir Ddinbych ar gyfer rhaglen Plant! a fydd yn gweld 11,000 o goed cynhenid yn cael ei plannu yma.

“Ynghyd â hyn, mae Tai Sir Ddinbych, gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Cefn Gwlad, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phrifysgol Bangor yn lansio *Natur er Iechyd*.

“Bydd y prosiect peilot 18 mis hwn yn rhedeg ym Mharc Bruton a The Marsh, y Rhyl, Morfa Gateway, Prestatyn, Pengwern, Llangollen, a Chorwen, ac yn helpu unigolion a chymunedau i gysylltu gyda chefn gwlad a mabwysiadu arferion iach am oes. Mae amddiffyn yr amgylchedd ac annog pobl ifanc i ddatblygu ymddygiad sy’n cyfrannu at iechyd da a lles yn flaenoriaethau i’r Cyngor ac mae’r prosiectau hyn yn ein helpu ni i gyflawni hyn. Mae lansio’r ddau brosiect yn ystod Rhyl Wyllt yn golygu y bydd etifeddiaeth y digwyddiad yn parhau ar ôl i’r diwrnod ei hyn ddod i ben.”

Cynhelir Rhyl Wyllt ar ddydd Sadwrn 22 Medi 22 11am-4pm yng Nglan Morfa.

Diwedd